



Polisi
Asesu
Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Enw'r polisi	Dyddiad adolygu	Dyddiad adolygu nesaf
Asesu	Medi 2026	Medi 2027

Polisi Asesu Ysgol Gymraeg Cwmbrân

(Adolygwyd ym mis Medi, 2026)

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â pholisïau eraill yr ysgol megis ein polisi adborth.

Mae'r holl staff yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân yn cydnabod effaith allweddol arferion asesu effeithiol i alluogi disgyblion i ddeall eu siwrne dysgu. Mae'n hanfodol bod staff, llywodraethwyr a rhieni / gwarchodwyr yn ymwybodol o'r ystod o ddibenion asesu a'r ffyrdd y gellid defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol. Mae asesu yn broses barhaus sy'n digwydd yn ddyddiol, boed mewn gwrs lafar neu mewn tasg ysgrifenedig.

Mae asesu yn chwarae rhan sylfaenol wrth alluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau y caiff ei gefnogi a'i herio.

Mae asesu yn rhan naturiol o'r dysgu a'r addysgu yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân. Mae asesu effeithiol yn:

- cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd;
- hysbysu athrawon ynglŷn â gofynion dysgu disgyblion;
- cefnogi athrawon wrth ymestyn disgyblion a manteisio i'r eithaf ar eu gallu;
- galluogi disgyblion i ddangos cyrhaeddiad;
- galluogi athrawon i fonitro cynnydd dros gyfnod estynedig;
- helpu disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella a'u gwneud yn ymwybodol o'r cam nesaf ymlaen.

Mae athrawon dosbarth yn cadw cofnodion o asesu ffurfiol neu anffurfiol sy'n digwydd o fewn y dosbarth e.e. gwaelodlin Meithrin a Derbyn, gwaelodlin Mathemateg, profion statudol neu asesiadau Tric a Chlic / RWI ayyb.

Yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân, mae'r holl staff yn cytuno mai prif nod asesu yw cynorthwyo disgyblion yn eu dysgu trwy wneud dyfarniadau ynglŷn â'r hyn maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud, a'r hyn, o ganlyniad, sydd angen iddynt ei wneud i sicrhau cynnydd.

Yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân, credwn fod asesu yn yr ystafell ddosbarth yn effeithiol pan fydd athrawon yn:

Enw'r polisi	Dyddiad adolygu	Dyddiad adolygu nesaf
Asesu	Medi 2026	Medi 2027

- asesu mewn ystod o gysyniadau e.e. gwaith unigol, gwaith pâr, gwaith grŵp a sefyllfaoedd dosbarth cyfan;
- darparu cyfle i ddisgyblion fyfyrrio ar eu dysgu;
- trafod y camau nesaf gyda'r disgyblion;
- sicrhau amser i ddisgyblion ymateb i'r marcio;
- rhoi adborth ysgrifenedig a llafar i'r disgyblion;
- defnyddio ystod o ddulliau asesu yn hyderus;
- meddu ar strategaethau sy'n eu galluogi i gydnabod pan fod problemau gan ddisgyblion neu pan nad ydynt yn gwneud cynnydd.

Marcio ac adborth:

Fel y nodir yn ein polisi adborth, prif bwrpas rhoi adborth yw i gael **effaith** ar waith y disgyblion ac felly, fe'i hystyrir yn rhan allweddol o rôl pob aelod o staff yn yr ysgol, boed ar **lafar** neu'n **ysgrifenedig**. Wrth roi adborth ar ddarn o waith, dylid edrych ar bob disgybl yn unigol a marcio yn ôl gallu pob unigolyn. Dylid canmol disgybl ar ddarn o waith. Dylid rhoi adborth yn gyson er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cyrraedd ei lawn botensial ac yn ymwybodol o'r ffordd ymlaen.

*"Mae Estyn yn barnu effaith unrhyw farcio neu adborth ar ba mor dda y mae disgyblion yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella."
 "Bydd Estyn yn ystyried sut mae athrawon a disgyblion yn defnyddio adborth ysgrifenedig a llafar i hyrwyddo dysgu."*

Dylai canlyniadau marcio gael effaith amlwg ar gynnydd disgyblion. Prif bwrpas rhoi adborth yw rhoi cyfarwyddiadau clir i ddisgyblion o'r hyn y maent wedi'i wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella e.e. sillafu a gwallau treiglo.

Bydd marcio effeithiol yn:

- gyson;
- darparu strategaeth glir ar gyfer gwella;
- cymryd ymagwedd bositif;
- gryno ac yn ddealladwy i ddisgyblion;
- annog ac yn addysgu disgyblion i hunan farcio lle bo'n briodol;
- rhoi cyfle i'r disgyblion ymateb a gwella o ganlyniad.

Dylid caniatáu amser i ddisgyblion ddarllen sylwadau marcio ac ymateb iddynt yn ôl yr angen.

Enw'r polisi	Dyddiad adolygu	Dyddiad adolygu nesaf
Asesu	Medi 2026	Medi 2027

Asesu Llythrennedd, Rhifedd a TGCh:

Mae gan bob aelod o staff fynediad at ein teclynnau asesu Llythrennedd, Rhifedd a TGCh, sydd wedi'u datblygu yn unol â'n cynlluniau ysgol. Mae'r dogfennau hyn yn galluogi staff i fonitro cynnydd pob disgybl drwy gydol eu hamser yn yr ysgol, gan sicrhau bod datblygiad sgiliau craidd yn cael ei olrhain yn gyson ac yn effeithiol.

Proffiliau unigol disgyblion:

Mae gan bob un o'n disgyblion broffil unigol sy'n cynnig cipolwg clir ar eu taith ddysgu drwy'r ysgol. Mae'r proffiliau hyn yn gyfle i ddatlu gwaith gorau'r disgyblion, rhannu targedau gyda rhieni, ac yn adnodd gwerthfawr ar gyfer adrodd ar gynnydd. Rhannwyd y proffil gyda'r rhieni ym mis Chwefror, ac fe'i defnyddir fel adroddiad diwedd flwyddyn ym mis Gorffennaf.

Gwaelodlin Meithrin a Derbyn:

Yn ystod wythnosau cyntaf ein disgyblion Meithrin a Derbyn, mae'r athro yn cwblhau gwaelodlin gan ddefnyddio system goleuadau traffig. Yna, bydd yr athro yn ychwanegu ar hwn yn ystod pob hanner tymor er mwyn tracio cynnydd y disgyblion. Dadansoddi'r wybodaeth hwn o fewn yr ysgol er mwyn penderfynu ar dasgau ffocws a grwpiau ymyrraeth.

Prawf darllen Cymraeg safonedig Consortiwm Canolbarth y De:

Rydym yn defnyddio'r Prawf darllen Cymraeg Safonedig Consortiwm Canolbarth y De i asesu cywirdeb darllen disgyblion Blwyddyn 2 i 6. Cwblheir yr asesiad ddwywaith y flwyddyn er mwyn olrhain cynnydd a chynllunio camau nesaf y dysgwyr.

Prawf sillafu Cymraeg safonedig Consortiwm Canolbarth y De:

Rydym yn defnyddio'r Prawf sillafu Cymraeg Safonedig Consortiwm Canolbarth y De i asesu cywirdeb sillafu disgyblion Blwyddyn 3 i 6. Cwblheir yr asesiad ddwywaith y flwyddyn er mwyn olrhain cynnydd a chynllunio camau nesaf y dysgwyr.

Asesu Statudol:

Yn flynyddol, mae disgyblion o flynyddoedd 2 i 6 yn cwblhau asesiadau personol.

Blynyddoedd 2 a 3:

Prawf Darllen Cymraeg a Rhifedd Gweithdrefnol.

Blwyddyn 3:

Enw'r polisi	Dyddiad adolygu	Dyddiad adolygu nesaf
Asesu	Medi 2026	Medi 2027

Prawf Darllen Cymraeg, Rhifedd Gweithdrefnol a Rhifedd Rhesymu.

Blynyddoedd 4 - 6:

Prawf Darllen Cymraeg, Darllen Saesneg, Rhifedd Gweithdrefnol a Rhifedd Rhesymu.

Mae rhieni / gwarchodwyr yn derbyn y canlyniadau a dadansoddiad o ganlyniadau'r disgyblion ar ddiwedd y flwyddyn. Dadansoddir y data hwn o fewn yr ysgol er mwyn penderfynu ar raglenni ymyrraeth a gosod disgyblion ar y gofrestr ADY neu'r rhestr MATH.

Llyfrau targed personol:

Mae gan bob disgybl o flynyddoedd 2 i 6 lyfr targed personol. Yn y llyfrau yma ceir targedau llythrennedd, rhifedd cyffredinol e.e. adio / tablau ayyb neu darged yn ymwneud â mewngofnodi i raglenni ymyrraeth.

Tystiolaeth:

Erbyn hyn, rydym yn cadw tystiolaeth o unrhyw waith pâr, grŵp neu waith llafar ar gyfrif SEESAW bob dosbarth. Ceir lluniau o dasgau gwahanol ar gyfrif Bluesky yr ysgol ac ar SEESAW. Y cofnodion mwyaf o allu'r disgyblion yw eu llyfrau gwaith ac eu ffeiliau ar Google Drive.

Asesu ar gyfer dysgu:

Mae asesu ar gyfer dysgu yn digwydd ar lawr y dosbarth er mwyn llywio addysgu a dysgu yn y dyfodol. Mae'n rhan annatod o addysgu bob dydd, yn broses barhaus sy'n tyfu drwy ddealltwriaeth gyffredin, addasu arferion a ffocws clir ar ddysgu.

Adrodd i rieni / gwarchodwyr:

Rhown gyfle i rieni a gwarchodwyr gwrdd ag athro'r plentyn dair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn ystod tymor yr haf, rydym yn darparu adroddiad ysgrifenedig sy'n rhoi gwybodaeth am les y disgybl a'i agwedd tuag at ddysgu. Mae ein proffiliau unigol bellach yn adrodd ar gyrhaeddiad mewn Llythrennedd a Rhifedd. Rydym hefyd yn gosod targedau ac yn rhannu ffyrdd o gyfoethogi dysgu'r disgyblion ymhellach.

Enw'r polisi	Dyddiad adolygu	Dyddiad adolygu nesaf
Asesu	Medi 2026	Medi 2027